Ysgoloriaeth PhD Cyfrwng Cymraeg: ‘Bron bob ty wedi claddu rhywun annwyl!’ Astudiaeth o Bandemig Y Ffliw yng Nghymru, 1918-20

(Dyddiad cau: 20ed Awst 2021)

Disgrifiad o’r Prosiect

Mae pandemig ffliw 1918-20 wedi derbyn llawer o sylw yn y cyfryngau a’r byd academaidd yn ddiweddar o ganlyniad i’r argyfwng Covid-19 presennol. Mae astudiaethau hanesyddol newydd, cymariaethau rhwng y pandemigion yng nghyd-destun polisïau cymdeithasol, ac amrywiaeth o raglenni radio a theledu wedi’u cynhyrchu oherwydd y diddordeb newydd yn y digwyddiadau ganrif yn ôl. Ond mae dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o’r sefyllfa yng Nghymru ac effeithiau’r pandemig yn y wlad yn gyfyngedig. Mae’r prosiect ymchwil hwn yn bwriadu llenwi’r bwlch hwn ac yn cynnig astudiaeth sy’n ystyried effaith pandemig y ffliw ar Gymru a’i chymunedau gwahanol.

Mae amcangyfrifon yn awgrymu y bu farw tua 10,000 o bobl yng Nghymru oherwydd y ffliw, yn bennaf yn y tair ton a darodd y wlad o Fehefin 1918 i Fai 1919, ond mae’r colledion ofnadwy hyn wedi colli dan gysgod erchyllterau’r Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ogystal, roedd effaith y pandemig ar deuluoedd yng Nghymru’n waeth nag unrhyw epidemig neu bandemig blaenorol oherwydd y ffaith bod y ffliw wedi arwain at fwy o farwolaethau ymhlith oedolion ifainc yn hytrach na phlant a hen bobl fel y digwyddodd mewn epidemigion blaenorol. Roedd y symptomau’n drawmatig iawn wrth i ysgyfaint dioddefwyr lenwi gyda hylif ac y byddai’r cleifion yn troi’n las oherwydd diffyg aer yn y gwaed. Nid oedd y ffliw wedi gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o gymunedau ychwaith a dioddefodd cymunedau gwledig cynddrwg ag ardaloedd mwy trefol neu ddiwydiannol ble byddai mwy o bobl yn dod i gysylltiad agos â’i gilydd; dioddefodd Sir Gaernarfon, er enghraifft, y cyfraddau marwolaeth gwaethaf yng Nghymru.

Bydd yr astudiaeth hon yn defnyddio deunyddiau mesurol ac ansoddol er mwyn cynnig hanes demograffig sy’n cael ei leoli yng nghyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol penodol cymunedau Cymreig. Mae llu o ystadegau o wahanol fathau ar gael er mwyn astudio’r pandemig mewn cymunedau ac ardaloedd gwahanol. Mae’n bosibl defnyddio’r ffynonellau gwreiddiol hyn er mwyn astudio cyfraddau yn ôl oedran, rhyw, lleoliad, galwedigaeth, a nodweddion eraill, a chyflawni dadansoddiadau ystadegol soffistigedig iawn.

Bydd y deunyddiau ystadegol hyn yn cael eu defnyddio ochr-yn-ochr â deunydd mwy ansoddol er mwyn dyfnhau’r dadansoddiad. Defnyddir cofnodion gweinyddol awdurdodau lleol i astudio ymatebion a pholisïau iechyd cyhoeddus, tra defnyddir cofnodlyfrau ysgol, cofnodion busnesau lleol, deunyddiau eglwysi a chapel, a mathau eraill o ffynonellau hanesyddol er mwyn rhoi syniad o ymatebion cymunedol. Bydd mathau eraill o ffynonellau gwreiddiol yn cael eu defnyddio i asesu effeithiau cymdeithasol a diwylliannol. Bydd papurau newydd yn arbennig o ddefnyddiol yn y cyd-destun hwn oherwydd y colofnau newyddion, y disgrifiadau o brofiadau unigolion, teuluoedd a chymunedau, yn ogystal â chynhyrchion diwylliannol fel cerddi. Bydd dyddiaduron, llythyron a

deunyddiau hunangofiannol a phersonol eraill yn cael eu defnyddio i ddarparu persbectifau personol llaw gyntaf, a bydd sylw i ddealltwriaeth ragluniaethol a seciwlar hefyd.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn goruchwyliaeth gan Dr Steve Thompson (Adran Hanes a Hanes Cymru) a'r Athro Gareth Griffith (Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig). Bydd yn manteisio ar gyfleon i gydweithio gydag ymchwilwyr yn y ddwy adran.

Nodiadau Ariannu

Mae'r ysgoloriaeth wedi'i hariannu ar y cyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Aberystwyth. Mae'n amod o'r cyllid fod y traethawd yn cael ei baratoi a'i gyflwyno yn y Gymraeg. Mae'r ysgoloriaeth ar gael am gyfnod o dair blynedd i gyflenwi tuag at gost ffioedd y DU/UE a grant cynhaliaeth (sy'n £15,609 ar gyfer 2021-22). Ystyrir ceisiadau i astudio yn rhan amser gydag ysgoloriaeth ar gael ar sail pro rata hefyd. Bydd yn ddisgwyliedig i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â dyletswyddau addysgu achlysurol yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru a'r / neu'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig ym Mhrifysgol Aberystwyth fel amod o'r ysgoloriaeth.

Gofynion Mynediad

Dylai'r ymgeisydd fod wedi derbyn (neu'n disgwyl derbyn yn fuan) gradd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch mewn hanes neu pwnc gwyddonol. Mae cymhwyster ar lefel meistr yn ddymunol. Dylai'r ymgeisydd fedru siarad ac ysgrifennu'n Gymraeg yn rhugl. Byddai'n fanteisiol i'r ymgeisydd fod â phrofiad o ddadansoddiadau ystadegol.

Mwy o Wybodaeth

Am fwy o wybodaeth am y prosiect, cysylltwch â'r goruchwyliwyr Dr Steve Thompson (sdt@aber.ac.uk) neu'r Athro Gareth Griffith (gwg@aber.ac.uk). Am fwy o wybodaeth am ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol dilynwch y ddolen yma: http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/ymchwil/ysgoloriaethauymchwil/ ac am fwy o wybodaeth am yr adrannau, ewch i https://www.aber.ac.uk/cy/ibers/ a https://www.aber.ac.uk/cy/history/

Sut i ymgeisio:

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw **Dydd Gwener, 20ed Awst 2021**. Bydd c**yfweliadau ar gyfer yr ysgoloriaeth yn cael eu cynnal rhwng 23ed a 27ed Awst**.
Ymgeisiwch ar-lein gan ddefnyddio'r wybodaeth a roddir ar wefan y Brifysgol (https://www.aber.ac.uk/cy/postgrad/apply).